**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (CYLCHFAN SWANSEA ROAD, MERTHYR TUDFUL I FFYNNON TAF, RHONDDA CYNON TAF) (GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD TRAFFIG DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Swansea Road, Merthyr Tudful a Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y cilfannau ac ar y darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; a

ii. gosod terfyn cyflymder 50 mya ar y darn o gefnffordd yr A470 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Ni fydd pob cilfan ar gau ar yr un pryd ond mae'n bosibl y bydd hyd at 3 cilfan ar gau pan fydd y gwaith yn cael ei wneud mewn lleoliad penodol. Byddant ar gau 24/7 yn ystod cyfnod y gwaith ym mhob safle. Ni fydd cilfannau olynol yn cael eu cau.

Bydd angen y terfyn cyflymder dros dro, a hynny'n ysbeidiol, er mwyn hwyluso cau lonydd yn ôl yr angen.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 5 Gorffennaf 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiad a'r cyfyngiad dros dro yn weithredol, pan fydd arwyddion traffig yn dangos hynny, o 20:00 o'r gloch ar 5 Gorffennaf 2021 am hyd at 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (SWANSEA ROAD ROUNDABOUT, MERTHYR TYDFIL TO TAFFS WELL, RHONDDA CYNON TAF) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITION & RESTRICTION) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road between Swansea Road Roundabout, Merthyr Tydfil and Taffs Well, Rhondda Cynon Taf.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles from proceeding on the lay-bys and length of trunk road specified in Schedule 1 to this Notice; and

ii. impose a 50 mph speed limit on the length of the A470 trunk road described in Schedule 2 to this Notice.

All lay-bys will not be closed at the same time but up to 3 lay-by closures may be needed when works are undertaken at a particular location. The closures will be 24/7 for the duration of the works at each site. Consecutive lay-by closures will be avoided.

The temporary speed limit will be required on an intermittent basis to facilitate lane closures as and when required.

The Order comes into force on 5 July 2021. The temporary prohibition and restriction are expected to operate, when indicated by traffic signs, from 20:00 hours on 5 July 2021 for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1
## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darnau o bob cilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r de y gefnffordd rhwng Cylchfan Swansea Road, Merthyr Tudful a chyffordd Ffynnon Taf.

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r de nad yw'n cael ei defnyddio mwyach rhwng cyffordd De Pontypridd a chyffordd Glyn-taf.

Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd a leolir rhwng Cylchfan Abercynon a Chylchfan Abercannaid.

## ATODLEN 2
## Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o Gylchfan Rhyd-y-car i Gylchfan Abercannaid.

## SCHEDULE 1
## Temporary prohibition of vehicles

The lengths of all lay-bys adjacent to the southbound carriageway of the trunk road between Swansea Road Roundabout, Merthyr Tydfil and Taffs Well junction.

The length of the southbound abandoned slip road between Pontypridd South junction and Glyntaff junction.

The length of the lay-by adjacent to the northbound carriageway of the trunk road located between Abercynon Roundabout and Abercanaid Roundabout.

## SCHEDULE 2
## Temporary 50 mph speed limit

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from Rhydycar Roundabout to Abercanaid Roundabout.